**CYNGOR CYMUNED TROED-YR-AUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 CHWEFROR, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL, FFOSTRASOL am 7.30 p.m.**

**Yn bresennol** Cyng. Emyr Jones (cadeirydd)
Cyng. Mark Davies
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Robert Jones
Cyng. Teifi Evans
Cyng. Julie Davies
Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Siân Williams
Cyng. Roger Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng. Ceri Jones

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorydd Ceri Jones. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion Cyfarfod mis Rhagfyr. | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Rhagfyr. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Ynghylch y trap graean ym Mrongest – bydd Cyng. Teifi Evans yn archwilio hwn ac yn hysbysu'r Clerc.<br><br>I'w adrodd ar CLIC – SA44 5LH – Coed-y-bryn – mae'r arwydd ar goll ac yn SA44 5QH – mae'r arwydd tractorau yn croesi ar goll wrth Fferm Glanllyn, Brongest.<br><br>Roedd Cyng. Siân Williams wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Chwaraeon Cymru, gan holi a oes unrhyw grantiau ar gael i brynu diffibriliwr i'w osod yng nghlwb pêl-droed Ffostrasol, ond yn anffodus, nid oes unrhyw grantiau ar gael. | | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Maldwyn Lewis bod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Sharon Thomas. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Maldwyn Lewis bod y cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf bellach ar gael a bod modd manteisio arno ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Dylid llenwi ffurflenni cais ar-lein.<br><br>Roedd llyfrgelloedd bellach wedi ailagor a gall y cyhoedd ddefnyddio'r cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd, ond mae gofyn archebu sesiynau ymlaen llaw ac mae cyfyngiadau amser yn weithredol.<br><br>Roedd Canolfannau Hamdden wedi ailagor ddiwedd fis diwethaf hefyd. | | |

| | |
|---|---|
| | Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd, Mr. James Starbuck, wedi cychwyn yn ei swydd newydd. |
| 7. Gohebiaeth | Cafwyd llythyr gan Gyng. Julie Davies yn nodi y byddai'n ymddiswyddo fel Cynghorydd o 1 Chwefror 2022. Nododd Julie ei bod hi wedi mwynhau ei hamser fel Cynghorydd a'i bod yn dymuno'n dda i'r Cyngor yn y dyfodol. Diolchodd y Cadeirydd a'i chyd Gynghorwyr i Julie am ei gwaith, gan ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol.<br><br>Roedd Mrs. Carys Davies-James wedi anfon llythyr i mewn yn nodi ei phryderon am y ffaith bod cerbydau yn goryrru wrth Panteg Cross, Llandysul. Trafodwyd y llythyr a'r unig beth yr oedd modd i'r Cynghorwyr ei wneud oedd cyfeirio'r llythyr at Gyngor Sir Ceredigion. Bydd y clerc yn anfon copi o'r llythyr ymlaen i Gyngor Sir Ceredigion **Clerc** |
| 9. Cynllunio | Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio cyn y cyfarfod. |
| 10. Ariannol | **Praesept 2022/2023** Fel y trafodwyd yn ystod y cyfarfod ym mis Rhagfyr, nodir £10,000 ar y ffurflen. Gan mai'r dyddiad cau er mwyn cyflwyno'r ffurflen oedd 28 Ionawr 2022, ar ôl trafod gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, roedd y Clerc wedi anfon y ffurflen ymlaen i Gyngor Sir Ceredigion ar 26 Ionawr 2022.<br><br>**Ymchwiliad Archwilio** – nid oedd y Clerc wedi cael unrhyw ohebiaeth cyn cyfarfod mis Chwefror. Bydd y Clerc yn anfon neges e-bost yn gofyn am ddiweddariad cyn cyfarfod mis Mawrth. **Clerc**<br><br>**Llofnodwyr NatWest** – Postiwyd ffurflenni a lanwyd i Fanc NatWest, Caerfyrddin. Erbyn y cyfarfod, nid oedd y Clerc na'r 2 lofnodwr newydd wedi clywed wrth y Banc. Roedd Cyng. Sharon Thomas wedi llwyddo i gael gafael ar rif ffôn Llinell Gymorth Gorchmynion NatWest ac os na fyddwn yn clywed unrhyw beth yn ystod yr wythnos nesaf, bydd y Clerc yn ffonio'r linell gymorth am gyngor. **Clerc**<br><br>**Taliadau** HMRC - £43.60 x 2 (Rhagfyr ac Ionawr) (PAYE)<br>Cyflog y Clerc - £173.80 x 2 (Rhagfyr ac Ionawr)<br>Llinos Jones (Gwasanaeth cyfieithu) - £187.05<br><br>Llofnodwyd y sieciau gan Gynghorwyr Roger Davies a Maldwyn Lewis yn ystod y Cyfarfod.<br><br>**Tanysgrifiad Zoom** – atgoffwyd y cyfarfod gan Gyng Mark Davies bod gofyn talu'r tanysgrifiad blynyddol am gyfarfodydd Zoom ym mis Mawrth. Trafodwyd y mater, a gan bod modd i ni gynnal cyfarfodydd mewn neuaddau pentref nawr, roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno y dylid canslo'r tanysgrifiad. Bydd Cyng. Mark Davies yn canslo'r tanysgrifiad.<br><br>**Diffibrilwyr** – roedd Cyng. Maldwyn Lewis wedi cael pris am ddiffibriliwr, sef £800, ac mae'r blwch yn £423 + TAW. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gofynnir am ddyfynbrisiau gan Galonnau Cymru a Calon Heart am Ddiffibrilwyr a blychau storio. **Clerc.** |
| | | Ar ôl cael dyfynbrisiau, bydd y Clerc yn hysbysu'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a Chyng. Mark Davies a bydd yn symud ymlaen i brynu'r tri, a leolir yng Nghlwb Pêl-droed Ffostrasol, Capel Bwlch-y-groes ac ym Mhenrhiwpâl (ger y blwch postio). **Clerc** |
| | | Roedd pob Cynghorydd a oedd yn bresennol yn cytuno gyda hyn. |
| | | **Ffurflenni Cais am Grant** – roedd Eglwys St. Michael, Troed-yr-aur ac Ambiwlans Awyr Cymru wedi cyflwyno ceisiadau. Trafodwyd y ceisiadau a phenderfynwyd rhoi £150 i'r ddau. **Clerc** |
| | | **Trosglwyddo Cronfeydd –** trosglwyddir £4,500 o'r Gronfa Busnes wrth Gefn i'r Cyfrif Cyfredol. Bydd y Clerc yn paratoi llythyr ac yn trefnu bod Cyng. Maldwyn Lewis a Chyng. Roger Davies yn llofnodi'r llythyr, gan anfon y cais ymlaen i'r banc. **Clerc** |
| 11. | Materion Ardal | **Llyfr Coed-y-bryn** – roedd y Cynghorwyr wedi gweld y llyfr a'i ddarllen, ac estynnwyd llongyfarchiadau i bawb a fu'n gysylltiedig â'r fenter hon. |
| | | **Wifibre** – mae cyllid wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer ardal Penrhiwpâl. |
| | | Mae un panel gwydr ar goll yn safle bws Croes-lan (safle bws ger y siop). Adroddir am hyn ar CLIC Ceredigion. **Clerc** |
| | | Mae dŵr yn rhedeg i'r ffordd gyferbyn â Blaencrymant, Henllan. SA44 5UA. Adroddir am hyn ar CLIC Ceredigion. **Clerc** |
| | | **Llongyfarchiadau –** cyfeiriodd Cyng. Sharon Thomas at gyflawniadau nifer o bobl ifanc a oedd wedi cynrychioli Cymru mewn chwaraeon amrywiol yn ddiweddar – Gareth Thomas a Steffan Thomas – Rygbi. Elin Jones, Ffostrasol – pêl-droed (dan 17) a Dafydd a Ffion Jones, Rhydlewis – bowlio mat byr. |
| 13. | Cyfarfod Nesaf. | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 1 MAWRTH am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn os bydd y sefyllfa o ran Covid yn caniatáu hynny. Os bydd y sefyllfa yn newid, trefnir cyfarfod Zoom ar yr un dyddiad ac amser. |
| | | Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.20 p.m. |

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod blaenorol<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwiliad<br>Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br><br>Materion Ardal<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 1 MAWRTH, 2022** am **7.30 p.m.** yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn. (Gallai'r lleoliad newid os bydd y sefyllfa o ran Covid yn newid). |